

Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

362 - Beirniadaeth Gwaith Llafar Wedi'i Recordio Bl. 6 ac Iau (D)

Beirniad – Christne Roberts

Mae'n siomedig iawn mai dim ond un ymgeisydd sydd yn cystadlu eleni. Mae'n gystadleuaeth sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg a magu hyder ac mae gan yr ymgeiswyr y rhyddid i ddewis sut maent am gyflwyno eu gwaith a'r nifer sydd yn ei wneud. Yn y gystadleuaeth eleni ceir unigolyn yn cyflwyno stori ddifyr am ddigwyddiadau dros y penwythnos. Mae dau blentyn craff yn sylwi ar ryw beth rhyfedd yn mynd ymlaen yng ngardd drws nesaf ac maent yn helpu dal pedwar dihiryn ac yn achub ci a chath eu cymydog. Rhaid llongyfarch yr ymgeisydd ar gyflwyniad rhugl a hyderus. Mae'r ynganu a'r mynegiant yn dda iawn ac mae'n adrodd y stori mewn ffordd fywiog a diddorol. Llwyddodd hefyd i gyfleu sgwrs rhwng cymeriadau trwy ddefnyddio'r llais yn briodol. Enillydd teilwng iawn. Llongyfarchiadau i'r ymgeisydd a daliwch ati!

1af - Ruby Haf James